## Mae pob croesfan wastad yn wahanol. Cymerwch amser i ddarllen yr arwyddion a dilynwch y cyfarwyddiadau ar sut i groesi'n ddiogel.

Mae eu hanwybyddu'n peryglu'ch bywyd chi a bywydau pobl eraill. Gallech hefyd fod yn torri'r gyfraith.

Mae llawer o ddamweiniau fu bron â digwydd a marwolaethau pob blwyddyn.

Rhaid i chi, eich teulu a'ch ffrindiau ddeall a pharchu'r rheolau er mwyn croesi'n ddiogel.



# Cysylltu â ni

@networkrail

www.networkrail.co.uk


03457 11 41 41

**Stopiwch, edrychwch a gwrandewch wrth groesfannau gwastad**

NetworkRail

## Arhoswch yn ddiogel wrth groesfannau gwastad.

## Stopiwch, edrychwch a gwrandewch.



**Stopiwch, edrychwch a gwrandewch wrth groesfannau gwastad**

# Chwalu'r mythau

**Myth 1:** Dydy trenau ddim yn rhedeg ar ddydd Sul.

**Ffaith:** Mae trenau'n rhedeg trwy'r dydd pob dydd.

**Myth 2:** Gall trenau arafu os ydyn nhw'n fy ngweld.

**Ffaith:** Mae'n cymryd mwy na 320 o fetrau i 400 o dunelli o ddur sy'n mynd ar 60mya stopio. All neb eich gweld o 320 o fetrau i ffwrdd, heb sôn am stopio trên.

**Myth 3:** Heddiw, gyda thechnoleg fodern, bydd rhwystrau'n fy synhwyro a'm rhybuddio'n awtomatig os oes trên yn dod.

**Ffaith:** Ni all rhwystrau synhwyro pobl na dim byd arall sy'n mynd heibio iddynt. Maen nhw yno i'ch cadw ar bellter diogel o drên sy'n mynd heibio.

**Myth 4:** Dim ond un trên sy'n mynd heibio ar y tro.

**Ffaith:** Mae trenau'n rhedeg trwy'r dydd pob dydd, dau ar y tro yn aml.

**Myth 5:** Dim ond rhybudd yw'r goleuadau sy'n fflachio. Maen nhw'n golygu bod gen i ddigon o amser i groesi.

**Ffaith:** Mae'r goleuadau sy'n fflachio yn golygu bod trên yn nesáu, felly mae angen ichi aros mewn lle diogel y tu ôl i'r llinell.

# Sut ydw i'n cerdded yn ddiogel dros groesfan wastad?



### Canolbwyntiwch

Mae'n hawdd i bethau dynnu'ch sylw, yn enwedig ffonau, cerddoriaeth a sgwrs felly talwch sylw wrth ddod at groesfan.




### Stopiwch, edrychwch a gwrandewch

Dilynwch yr arwyddion a'r cyfarwyddiadau a ddangosir wrth y groesfan bob amser.



### Gwyliwch am oleuadau


Os yw'r goleuadau rhybuddio'n fflachio:

- Stopiwch, peidiwch â chroesi
- Arhoswch nes bod y goleuadau wedi stopio fflachio.



### Edrychwch i'r ddau gyfeiriad cyn croesi

Os oes trên yn dod, peidiwch â chroesi. Arhoswch ac edrychwch eto cyn croesi.



### Deallwch y rhybuddion (goleuadau, rhwystrau, larymau)

Mae pob croesfan wastad yn unigryw gyda gwahaniaethau o ran pa mor aml mae trenau'n rhedeg a'r ddaearyddiaeth leol. Cymerwch amser i ddeall y rhybuddion wrth groesfan y dewch ati.



### Croeswch yn gyflym

Cadwch blant yn agos a chŵn ar dennyn.
**Cofiwch, efallai bod mwy nag un trên yn dod.**

3062_LX_All_Leaflet_6pp_DV1_Welsh.indd 31-33 29/04/2025 11:34